# Rhaglen

## Hydref 2025



**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

**WWW.RWCMD.AC.UK**

## Ymunwch â ni yr Hydref hwn am dymor bywiog o berfformiadau.

Mae 'Penwythnos Mawr y Llinynnau' (17-19 Hydref) yn agor y drysau i chwaraewyr llinynnau ifanc gael clywed, dysgu gan, a chwarae gyda rhai o'r goreuon yn y maes. Yn amrywio o'r feiolinydd ifanc disglair o Latfia, Roberts Balanas, i Bedwarawd Carducci, a cherddorion o Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, dewch i ymuno yn yr hwyl!

Ar gyfer teuluoedd, mae Theatr Little Angel yn dychwelyd gydag addasiad o 'The Paper Dolls' gan Julia Donaldson, mae The Paper Cinema yn cyflwyno 'Short Tales from Other Worlds' a bydd y Coleg yn dod yn gartref i gyfres 'Cyngherddau Bach' i blant dan 10 oed.

Eleni, rydym yn nodi canmlwyddiant yr actor mawr o Gymro, Richard Burton, gyda chynhyrchiad newydd o 'Hamlet', y rôl a'i gwnaeth yn enwog ar y llwyfan ac ar ffilm. Hefyd, mae dangosiad arbennig o'r ffilm 'Mr Burton', gyda Toby Jones, yn olrhain ei fywyd cynnar. Mae Syr Bryn Terfel yn cyflwyno cystadleuaeth gyntaf Gwobr y Gân lle bydd rhai o'r cantorion ifanc gorau o gonservatoires y DU yn cystadlu.

Bydd amrywiaeth eithriadol o artistiaid yn ymuno â ni yn ystod y tymor. Bydd y trombonydd o fri Dennis Rollins gyda ensemble jazz y Coleg yn dod â blas ffync i'ch hoff ganeuon Beatles yn R&Beatles. Mae doniau o Gymru yn cynnwys Catrin Finch, VRï, Alaw, Angharad Jenkins a llawer mwy, yn ogystal ag ymwelwyr o fannau pellach megis y pianyddion Tamara Stefanovich a Clare Hammond, y pianydd jazz o'r Alban Fergus McCreadie a'r gantores werin wobrwyedig o Loegr June Tabor.

Y Nadolig hwn, bydd 'Anturiaethau David Copperfield' yn werth ei weld. A bydd ein 'Gala Opera WNO' a'n 'Nadolig Broadway' bythol boblogaidd yn gwneud yn siŵr bod eich tymor Nadoligaidd yn gyflawn.

## Cynnwys


3 Digwyddiadau am ddim
4 Cwmni Richard Burton
6 Theatr a Ffilm
8 Teuluoedd
10 Penwythnos Mawr y Llinynnau
12 Cerddoriaeth
22 Nadolig yn y Coleg
24 Cynherddau Awr Ginio
20 Ymuno i mewn


Ewch i **https://www.rwcmd.ac.uk/cy/plan-your-visit** i gael rhagor o wybodaeth am docynnau, sut i ddod o hyd i ni, archebion grwpiau ac ysgolion a mwy.

Mae Bar y Caffi yn cynnig amrywiaeth eang o fwyd, cacennau a diodydd, ac mae nawr ar agor cyn perfformiadau ac yn ystod yr egwylion. Cadwch lygad am ein Cyfuniad Diod a Byrbryd.

**Wyddoch chi?** Mae fersiwn sain a phrint bras o'r llyfryn hwn ar gael. Ewch i: **www.rwcmd.ac.uk/cy/access-guide**

Rydym yn rhan o gynllun cenedlaethol o'r enw Hynt sy'n rhoi'r arfer gorau oll i gwsmeriad o ran polisi tocynnau teg a hygyrchedd.

Diolch i nawdd hael gan Unite Students, mae gan unrhyw fyfriwr sy'n byw mewn llety Unite yng Nghaerdydd hawl i docyn am £3. Chwiliwch am y symbol Unite i weld y digwyddiadau sy'n berthnasol.

Rydym yn falch o fod yn Bartner Cydnabyddiaeth Credydau Amser Tempo, sy'n cynnal cynllun gwobrwyo a chydnabyddiaeth ar gyfer gwirfoddolwyr yn y gymuned. Gallwch ddarganfod mwy yn **www.wearetempo.org**


Maes y Castell,
Parc Cathays, Caerdydd
029 2039 1391


Archebwch Ar-lein:
rwcmd.ac.uk/cy/whats-on

Cefnogir y rhaglen perfformiadau myfyrwyr gan Cyswllt
rwcmd.ac.uk/support-us

Llun clawr gan
Kirsten McTernan








## AmserJazzTime

**26 Medi–12 Rhag**
**5.30pm**
**Pob nos wener**

Y ffordd ddelfrydol i ddechrau eich penwythnos. Ymunwch â ni ar gyfer ein clwb jazz wythnosol gyda'r genhedlaeth nesaf o sêr.

Cyntedd Carne

## Bar Sain

**Iau 23 Hyd a**
**Iau 4 Rhag 6pm**

Cyfle i glywed gweithiau newydd gan ein cyfansoddwyr ifanc addawol.

Cyntedd Carne

## Cerfluniau Papur Anferth

**Llun 13 Hyd–**
**Maw 25 Tach**

Creadigaethau rhyfeddol gan ein cynllunwyr theatr yn ein harddangosfa flynyddol, sydd eleni wedi'i hysbrydoli gan yr artist enwog o Gymro Christopher Williams, mewn cydweithrediad ag Awen: Neuadd y Dref Maesteg.

Galeri Linbury

## Caffi Clasurol

**9 a 16 Hyd**
**13 a 27 Tach**
**11 Rhag 6pm**

Ymunwch â ni yn ein caffi clasurol, lle bydd perfformiadau ar raddfa fach gan ein cerddorion dawnus ar y fwydlen.


Cyntedd Carne

## Cabaret yn y Coleg

**Mer 15 Hyd**
**a Mer 26 Tach**
**6pm**

Detholiad o ddanteithion lleisiol o'r llwyfan wedi'u perfformio gan ein cantorion theatr gerddorol.

Cyntedd Carne




Constellations

# Hamlet

**Sad 25–Iau 30 Hyd 7.15pm**
**Mer 29 Hyd 2pm**

Mae llygredigaeth a thwyll yn rhemp. Mae llais tad Hamlet yn dweud wrtho am ddial am ei lofruddiaeth. Mae gwallgofrwydd yn dilyn a cheisir dial. Gan ystyried bywyd a marwolaeth, mae'n gofyn y cwestiwn enwog.

Ym mlwyddyn canmlwyddiant Richard Burton mae'r Coleg yn archwilio wynebau niferus Hamlet, gan ddathlu rôl enwocaf yr actor eiconig hwn.

Gan **William Shakespeare**
Cyfarwyddwr **Joanna Bowman**
Theatr Richard Burton
£9-£18
UNITE STUDENTS

# Pomona


**Gwe 24–Iau 30 Hyd 7.45pm**
**Maw 28 Hyd 2pm**

Mae pob ffordd yn arwain i Pomona. Mae chwaer Ollie ar goll. Mewn chwiliad taer, mae hi'n dod o hyd i ynys goncrit wag yng nghanol Manceinion. Yma, mae siwrneiau'n dod i ben a hunllefau'n cael eu geni. Drama gyffro sinistr a swreal.

Gan **Alistair McDowall**
Cyfarwyddwr **Kwame Owusu**
Theatr Bute
£8-£16
UNITE STUDENTS

14+ Oed

Cynnwys Themâu Oedolion
Gall cynnwys effeithiau strob neu niwl


Romeo & Juliet

# The Lonesome West

**Iau 23–Iau 30 Hyd 7pm**
**Sad 25 & Iau 30 Hyd 1.45pm**

Ar ôl marwolaeth ddamweiniol eu tad, mae brodyr Valene a Coleman yn byw yn ei dŷ ym mryniau Connemara. Wedi'u cloi mewn brwydr o gystadleuaeth rhwng brawd a brawd a checru plentynnaidd dros y pethau mwyaf dibwys, yr unig berson all eu hachub yw eu hoffeiriad plwyf sy'n alcoholig. Mae comedi tywyll a llwm gwobrwyedig hwn yn archwiliad doniol a chythryblus o'r hyn sy'n digwydd pan fydd y byd modern yn eich gadael ar ôl.

Gan **Martin McDonagh**
Cyfarwyddwr **Patricia Logue**
Stiwdio Caird
£8-£16



# The Adventures of David Copperfield

**Gwe 5–Mer 10 Rhag 7pm**
**Sad 6 Rhag 2pm**

**Y Nadolig hwn gallwch ddilyn anturiaethau rhyfeddol David Copperfield.**

'To begin my life with the beginning of my life, I record that I was born...'

O dorcalon i ddoniolwch llwyr, ymunwch â ni ar y wibdaith hon o hanes personol ac arsylwadau David Copperfield. Mae'r addasiad cyffrous a hudolus hwn gan Simon Reade yn mynd i fyd lled-hunangofiannol Charles Dickens mewn noson llawn hwyl mewn neuadd gerddoriaeth Fictoraidd.

Gan **Charles Dickens**
Addasiad gan **Simon Reade**
Caneuon gan **Chris Larner**
Cyfarwyddwr **Jac Ifan Moore**
Theatr Bute
£9–£18

Perfformiad Ysgolion:
**Mer 10 Rhag 10.30am**





Romeo & Juliet


Antigone

# Tartuffe, The Imposter

**Sad 6–Iau 11 Rhag 7.15pm**
**Maw 9 Rhag 2pm**

Mae gan Orgon bopeth: teulu hardd, arian a grym. Pan fo'n gadael y twyllwr rhagrithiol Tartuffe i mewn i'w fywyd daw twyll, hudoliaeth ac anhrefn yn ei sgil. Ond beth sy'n wir a beth sy'n ffug, ac a yw'r dieithryn hwn y dihiryn y mae'n ymddangos i fod? Mae fersiwn ffyrnig John Donnelly o gampwaith comig Molière yn edrych ar y graddau yr awn i ddod o hyd i ystyr.

Gan **Jean Baptise Molière**
Fersiwn gan **John Donnelly**
Cyfarwyddwr **Claire Brown**
Theatr Richard Burton
£8–£16
UNITE STUDENTS




## Theatre Re: Moments

**Sad 27 Medi 7.30pm**

Mae Theatre Re, un o brif gwmnïau theatr weledol y DU, yn ail-gyfuno cerddoriaeth fyw wreiddiol â pherfformiad gweledol trawiadol i greu cynyrchiadau di-eiriau dwys eu teimlad am heriau dynol cyffredinol a breuder bywyd. Gan blethu straeon personol â dychymyg theatrig, mae Moments yn archwilio'r profiad canol oed allweddol o golli rhiant, tra hefyd yn dod yn rhiant ac yn bod yn rhiant i'r genhedlaeth nesaf.

Theatr Richard Burton

**£8-£16**

UNITE STUDENTS

## The Paper Cinema: Short tales of other worlds

8+ Oed

**Gwe 3 Hyd 7.15pm**

Straeon byrion am fydoedd eraill; ysbrydion, breuddwydion a'r goruwchnaturiol. Mae storïwyr cyfareddol a llawn dychymyg The Paper Cinema yn creu bydoedd rhyfeddol, hudolus gyda lluniadau inc a phen llawn bywyd, pypedwaith, a thrysorfa o synau acwstig ac electronig. Wedi'i pherfformio gan ddau bypedwr ac aml-offerynnwr, mae The Paper Cinema yn dychwelyd i'w gwreiddiau 'allan o fag teithio' i'ch swyno gyda straeon atmosfferig am ysbrydion, breuddwydion a'r goruwchnaturiol.

Theatr Richard Burton

**£8-£16**

UNITE STUDENTS





## Dai Cula - Prince of the Valleys

**9–11 Hyd 7.30pm**

**Perfformiad BSL: 9 Hyd**


**Black RAT Productions a Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn cyflwyno comedi newydd gan Richard Tunley.**

Wedi iddo wylio'r holl gyfres o Who Do You Think You Are? Mae Dracula yn credu'n sicr bod ganddo gwaed brenhinol. Felly, mae'n archebu arch o Temu sy'n cyrraedd mewn pecyn gwastad, yn cadw lle mewn Airbnb, a bant â fe i'r Fforest Ddu... ond, mae'n diweddu lan yng Nghoed-duon yng nghymoedd De Cymru! Comedi llawn chwerthin, balchder tua'r cymoedd, a rhyw faint o garlleg.

Theatr Richard Burton

**£15-£17**

Gyda chefnogaeth **Cyngor Celfyddydau Cymru**




## Richard Burton 100

**Iau 30 Hyd**




**Yr hydref hwn dathlwch ganmlwyddiant geni Richard Burton ac un o'r rolau eiconig a wnaeth enw iddo.**

Mae'r Coleg yn falch o gysylltu ei waith â'r actor byd-enwog Richard Burton, y mae ei theatr a'i gwmni drama wedi'u henwi ar ei ôl.

### Dangosiad Ffilm Mr Burton

Ffilm

**2pm**

Mae rhai wedi'u geni'n wych. Mae rhai wedi'u hysbrydoli i fod yn wych. Stori wir y berthynas rhwng yr athro ysgol o Gymru, Philip Burton, a bachgen ysgol ifanc gwyllt o'r enw Richard Jenkins.

**£10**

### Sesiwn Holi ac Ateb Mr Burton

**4.15pm**

Ar ôl y dangosiad, ewch tu ôl i'r llen Mr Burton gyda'r cyfarwyddwr Marc Evans, y cynhyrchydd Ed Talfan a'r cyfansoddwr John Hardy (Pennaeth Cyfansoddi CBCDC), cyflwynwyd gan Tim Rhys-Evans.

**Am ddim gyda tocyn ffilm Mr Burton**

### Hamlet

**7.15pm**

Bydd Cwmni Richard Burton yn cyflwyno'r drasiedi Shakespeareaidd a ddaeth yn rôl enwocaf Burton.

**£9-£18**

Cefnogir gan **Gronfa Cyswllt**



'Mae'r rhyngweithio'n anhygoel. Darnau byr... gweithgareddau sy'n cynnwys pethau y gallant chwarae gyda nhw. Mae'n wirioneddol, wirioneddol dda.'
Rhiant

## Cyfres Little Concerts

0-10 Oed

11am a 2pm

Ymunwch â cherddorion proffesiynol ifanc gwych o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) mewn awr lawen o greu cerddoriaeth gyffrous wedi'i chynllunio o amgylch arddulliau dysgu aelodau ieuengaf ein cynulleidfa.

### Harp Hurrah!
Sad 15 Tach 2025

### Bassoon in the Room!
Sad 28 Maw 2026

### Percussion Playground!
Sad 27 Meh 2026

Stiwdio Seligman
£7

## Theatr Little Angel: The Paper Dolls

Sad 22 Tach 10am a 12pm
Sul 23 Tach 11am a 2pm

**Cyd-gynhyrchiad Theatr Little Angel a Theatr Polka, yn seiliedig ar y llyfr gwreiddiol gan Julia Donaldson a Rebecca Cobb.**

Mae merch fach yn torri llinyn o ddoliau papur, yn cydio yn eu dwylo a gyda'i gilydd maent yn mynd ar antur llawn rhyfeddod sy'n troelli trwy eu cartref a'u gardd. Mae Ticky, Tacky, Jackie the Backie, Jim gyda dau drwyn a Jo gyda'r bwa yn hedfan trwy amser ac yn gwibio ar draws bydoedd o hwyl a chyffro.

Theatr Richard Burton
£7.50 plentyn | £10 oedolyn

UNITE STUDENTS

3-8 Oed




## Gadewch i ni gynnal eich digwyddiad nesaf

**Welcome to our world-class facilities located in the heart of Cardiff.**

Croeso i'n cyfleusterau o'r radd flaenaf yng nghanol Caerdydd. Mae gennym ystod eang o fannau sydd ar gael i'w llogi, ac rydym wedi ennill enw da y gellir ymddiried ynddo am gynnal digwyddiadau rhyngwladol eithriadol, dathliadau personol cartrefol, darllediadau byd-eang, a pherfformiadau gwefreiddiol a llwyddiannus.

**I drafod eich digwyddiad cysylltwch â Janet Smith, Rheolwr Lleoliadau:**

janet.smith@rwcmd.ac.uk | 029 2039 1376








## Cyswllt

Dewch yn aelod o £5 y mis ac ymunwch â chymuned anhygoel o gefnogwyr sy'n helpu ein myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial yn CBCDC.

rwcmd.ac.uk/cy/support-us

# Penwythnos Mawr y Llinynnau

17-19 Hydref 2025

**Helo, Simon Jones ydw i, Pennaeth Perfformio Llinynnau yn CBCDC, ac rwy'n falch iawn o'ch gwahodd i'n Penwythnos Mawr y Llinynnau. Mae gennym amserlen gyffrous a phrysur, sydd wedi'i chynllunio i ddathlu amlochredd rhyfeddol offerynnau llinynnol gyda cherddoriaeth yn amrywio o'r clasurol i'r cyfoes, jazz i'r gwerin, a hyd yn oed rhywfaint o Queen a Billie Eilish yn rhan o'r cyfan!**

**Pwy yw'r artistiaid gwadd sy'n cymryd rhan?**
Mae gennym restr ryfeddol o artistiaid sy'n golygu y bydd rhywbeth at ddant pawb. Bydd rheolaeth dechnegol wych a chrefft greadigol unigryw'r seren YouTube o Latfia, **Roberts Balanas (Sadwrn 18 Hydref)**, yn cyfuno'r clasurol a'r pop, ac acwstig ag effeithiau electronig. O Steve Reich ac Arvo Pärt i Billie Eilish a Queen, rydym yn llawn cyffro ei fod yn creu trefniannau newydd a fydd yn cynnwys rhai o fyfyrwyr llinynnau y Coleg. Mae ein Pedwarawd Llinynnol Preswyl hynod amryddawn a rhyfeddol, **Pedwarawd Carducci (Gwener 17 Hydref)**, yn dychwelyd, a'r tro hwn byddant yn mynd â ni ar daith ar draws y byd, o straeon gwerin Ewropeaidd i rythmau De America. Bydd ein cyngherddau awr ginio yn cynnwys **Jacob Shaw (Dydd Gwener 17 Hydref)** - sylfaenydd Ysgol Soddgrwth Sgandinafaidd a aeth yn feirol yn dilyn ei hymddangosiad ar glawr blaen y New York Times - gydag **Unawdwyr Llinynnol CBCDC** mewn rhaglen fywiog sy'n cynnwys Violoncelles, Vibrez rhyfeddol Giovanni Sollima! A bydd y chwaraewr bas dwbl **Yuri Goloubev** yn rhoi blas i ni o gerddoriaeth glasurol gyda byrfyfyrio jazz wedi'i gyfuno yn ei ddatganiad awr ginio gyda'r pianydd o'r Eidal Simone Locarni.


Simon Jones

**A oes digwyddiadau am ddim yn rhan o'r penwythnos?**
Bydd llu o berfformiadau am ddim. Un na ddylid ei golli - bydd y feiolinydd jazz **Dominic Ingham**, un sydd wedi'i sefydlu'n gadarn ym myd jazz y DU, yn arwain **AmserJazzTime** ychwanegol, a fydd yn cynnwys perfformwyr o'n hadran jazz. Ac ar draws y penwythnos, bydd Cyntedd Carne yn cynnal amryw o gyngherddau bore coffi ac awr ginio - agored i bawb!

**Sut gall pobl ymuno yn ystod y penwythnos?**
Gall chwaraewyr llinynnol ifanc ifanc ymuno ag ystod eang o weithdai, sgyrsiau a sesiynau blasu. Dewch i roi cynnig ar y fiola neu'r bas dwbl neu ymunwch â ni ar gyfer **Y Perfformiad Mawr!** (manylion llawn ar dudalen 26).

**Mae rhywbeth i bawb ym Mhenwythnos Mawr y Llinynnau. Edrychaf ymlaen at eich gweld chi yno!**



## Carducci Caravan

**Gwe 17 Hyd 7.30pm**

Ewch ar daith gerddorol wedi'i hysbrydoli gan gerddoriaeth werin o amgylch y byd gyda'r Pedwarawd Carducci o fri. Mae'r rhaglen fywiog hon yn plethu alawon a dawnsfeydd traddodiadol o ddiwylliannau amrywiol, ynghyd â gweithiau teimladwy gan Dvořák, Elgar, Haydn, Glass, Piazzolla, Puccini, a mwy.

Neuadd Dora Stoutzker
£9-£18

UNITE STUDENTS


Pedwarawd Carducci

## Roberts Balanas a Llinynnau CBCDC

**Sad 18 Hyd 7.30pm**

Mae gan y feiolinydd ifanc o Latfia, Roberts Balanas ddilyniant enfawr ar y cyfryngau cymdeithasol am ei gyfuniad di-dor o gerddoriaeth glasurol a roc, gan ddenu sylw pobl megis Elton John a Pink Floyd. Ac ni fydd y rhaglen hon yn wahanol! Mewn trefniant arbennig gydag Ensemble Llinynnol CBCDC, bydd Balanas yn nodi 50 mlynedd ers rhyddhau Bohemian Rhapsody gan Queen (a recordiwyd yn Rockfield Studios yn Nhrefynwy).

Neuadd Dora Stoutzker
£11–£22

UNITE STUDENTS


Roberts Balanas

## Cyngherddau Awr Ginio

UNITE STUDENTS

### Jacob Shaw a Unawdwyr Llinynnau CBCDC

**Gwe 17 Hyd 1.15pm**

Neuadd Dora Stoutzker
£6-£10
Cefnogir gan y **teulu Biss**

### Yuri Goloubev a Simone Locarni

**Sad 18 Hyd 1pm**

Galeri Weston
£6-£10

## Digwyddiadau am ddim Cyntedd Carne

**Sad 18 Hyd**

### Cyngerdd Coffi
10am

### AmserJazzTime Arbennig gyda feiolinydd jazz Dominic Ingham
6pm

**Sul 19 Hyd**

### Cyngerdd Coffi
10am

### Cyngerdd Awr Ginio
1pm

## Nova Music: Scenes from Under Milk Wood

**Sul 7 Medi 3pm**

Opera Nova Music yn cyflwyno gwaith theatr-gerdd newydd sbon gan Ninfea Cruttwell-Reade. Yn seiliedig ar gampwaith Dylan Thomas, mae Cruttwell-Reade wedi dyfeisio cymysgedd arloesol o aria, adroddgan, cân barablu a'r gair llafar, sy'n dod â chymeriadau difyr Dylan Thomas yn fyw mewn modd creadigol iawn. Wedi'i gyfarwyddo gan Harvey Evans, mae'r cast yn cynnwys Rebecca Afonwy-Jones, Thomas Humphreys a David Prince gydag Ensemble Nova Music, o dan arweiniad George Vass.

Neuadd Dora Stoutzker

**£5-£22**

Wedi'i gefnogi gan **Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston**





Utsav

## Utsav

**Sul 7 Medi 4pm**

Mae Utsav, sy'n deillio o'r gair Sansgrit am 'ddathliad', yn ŵyl fywiog a throchol sy'n ymroddedig i arddangos harddwch, dyfnder ac amrywiaeth dawns glasurol De Asia. Gan ddwyn ynghyd artistiaid a myfyrwyr Samarpan yng Nghaerdydd mewn dathliad llawen o draddodiad, creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol, bydd yr ŵyl yn amlygu pedwar o brif ffurfiau dawns glasurol De Asia - Bharatanatyam, Kuchipudi, Kathak ac Odissi.

Theatr Richard Burton

**£10-£15**

## Dennis Rollins a RWCMD Jazz: R&Beatles

UNITE STUDENTS

**Iau 25 Medi 7.30pm**

Mae'r cerddor gwobrwyedig ac un o ffefrynnau CBCDC, Dennis Rollins MBE, yn dychwelyd gan ddod â'i arddull trombôn ffynci unigryw i ddisgleirdeb The Beatles. O Strawberry Fields i Norwegian Woods i awyr llawn diemwntau, mae adran jazz CBCDC yn dod ynghyd â Rollins i dalu teyrnged i'r pedwar arwr o Lerpwl.

Neuadd Dora Stoutzker

**£8.50-£17**







## Catrin Finch a Lee House: SATORU

**Iau 9 Hyd 7.45pm**

Camwch i mewn i fyd lle mae sain yn troi'n deimlad, ac mae cerddoriaeth yn meiddio holi'r cwestiynau na all geiriau eu gofyn. Mae'r profiad trochol hwn yn asio telyn gyda thriniaeth electronig, a'r gair llafar i'ch tywys drwy daith bersonol ddwys, sonig. Mae pob nodyn, pob ymadrodd yn edau sy'n eich tynnu trwy ddirgelwch, emosiwn a datguddiad. Disgwyliwch gael eich cyffroi, eich cynhyrfu, a'ch Trawsnewid.

Neuadd Dora Stoutzker

**£8.50-£17**

Rhan o Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd

UNITE STUDENTS





## Blodeugerdd: The Great Welsh Songbook

**Gwe 10 Hyd 7.45pm**

Mae'r trwmpedwr Tomos Williams yn dychwelyd gyda'i brosiect newydd sy'n ail-ddychmygu cerddoriaeth draddodiadol Cymru. Mae'r band 'Blodeugerdd / The Great Welsh Songbook' yn cynnwys sêr y sîn jazz Cymreig: Huw Warren (piano) Paula Gardiner (bas) a Mark O'Connor (drymiau), a bydd Rachel Musson yn ymuno ar y tenor sax, y gantores ifanc arbennig Eadyth Crawford yn ogystal a Tomos ar y trwmped.

Neuadd Dora Stoutzker

**£8.50-£17**

Rhan o Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd

UNITE STUDENTS

## Martha Masters

**Mer 15 Hyd 7.30pm**

Wedi'i disgrifio gan The New York Times fel 'Deinamig o ystwyth... bywiog a hyderus', mae hylifedd a chynhesrwydd i chwarae'r gitarydd Americanaidd Martha Masters sy'n gwneud i'r gwrandäwr fod eisiau clywed rhagor. O ffiwg a fflamenco i ychydig o Bossa Nova, mae'r rhaglen hon yn dangos y gitâr yn ei holl fawredd.

Galeri Weston

**£8.50-£17**

UNITE STUDENTS



# Llŷr Williams: Shostakovich Preludes a Fugues I

**Iau 16 Hyd 7.30pm**

Roedd Shostakovich yn byw ac yn gweithio dan drefn lem Comiwnyddiaeth ond ni allai neb gaethiwo ei ddychymyg, ac yn ei Breliwdiau a Ffiwgiau ar gyfer un piano mae hwnnw'n llifo'n rhyfeddol o rydd. Dros ddau gyngerdd bydd Llŷr Williams, artist cyswllt CBCDC, yn chwarae pob un o'r 24 o gampweithiau bach hynod hyn – cerddoriaeth sy'n llawn 'cwmpas rhyfeddol o liwiau a hwyliau ac emosiwn angerddol'.

Neuadd Dora Stoutzker
£12-£25

UNITE STUDENTS

Gostyngiad o **15%** pan fyddwch yn archebu 2 neu fwy o gyngherddau yng Nghyfres Piano Llŷr Williams 2025-2026.*
***Docynnau pris llawn yn unig**



Llŷr Williams



Ant Law

# Ant Law: Unified Theories

**Iau 23 Hyd 7.30pm**

Mae'r gitarydd blaenllaw Ant Law yn 'dorrwr tir newydd' ac yn 'arloeswr' fel y'i disgrifiwyd gan The Guardian. Unified Theories yw albwm newydd uchelgeisiol Law sy'n nodi dechrau aelodau band newydd sbon. Mae'n cynnwys Will Vinson (sacsoffon alto) sy'n dychwelyd i Brydain ar ôl degawdau ar flaen y gad yn sîn jazz Efrog Newydd, un o faswyr mwyaf amryddawn ac y mae galw mawr amdano yn Ewrop, Ferg Ireland, a Ernesto Simpson (drymiau) o Giwba sy'n adnabyddus am ei waith gyda Dizzy Gillespie, Michael Brecker a llawer mwy.

Neuadd Dora Stoutzker
£8.50-£17

UNITE STUDENTS

**DAN 25?** Mae ein cynnig Dan 25 yn rhoi 50% o ostyngiad i chi ar docynnau dethol.
**Gweler ein gwefan am fanylion llawn**

# Cerddorfa WNO: Elizabeth Llewelyn a Jiří Habart

**Gwe 24 Hyd 7.30pm**
**Sad 25 Hyd 2pm**

Ymunwch â Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref eleni am gyngerdd gogoneddus yn cyfuno cerddoriaeth a chân rhyfeddol. Bydd y soprano glodwiw, Elizabeth Llewellyn, yn ymuno â Cherddorfa WNO i ganu cylch caneuon rhamantus Wagner, Wesendonck Lieder, a ysbrydolwyd gan bum cerdd sy'n adlewyrchu cariad gwaharddedig a hiraeth. Ar y podiwm, bydd yr arweinydd ifanc Tsiecaidd, Jiří Habart, yn arwain rhaglen sy'n cynnwys Die Ruinen von Athen gan Beethoven, preliwd cerddorfaol beiddgar a dramatig Haydn, yr agorawd o Die Schöpfung, a Symffoni Rhif 8 orfoleddus Dvořák - yn ddathliad brwd o natur ac ysbryd Bohemaidd.

Neuadd Dora Stoutzker
£10-£26



Elizabeth Llewelyn


# Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway: Clare Hammond

**Sul 26 Hyd 11am**

'Campwraig ddisglair' y piano – dyna sut mae The Guardian yn disgrifio Clare Hammond, ac mae'n llygad ei le – mae arddeliad a dychymyg rhyfeddol ym mhopeth y bydd yn ei chwarae. Fore heddiw, wedi'i hysbrydoli gan flwyddyn nodi 150 mlynedd ers geni Maurice Ravel, mae'n archwilio cerddoriaeth piano Ffrengig ar ei mwyaf chwareus a dyfeisgar: byd o ffantasi pefriol ac emosiwn dwys, wedi'i ysgogi gan artist sydd â dawn arbennig i adrodd straeon cerddorol.

Neuadd Dora Stoutzker
£12-£25

UNITE STUDENTS



Clare Hammond

Gostyngiad o **10%** pan fyddwch yn archebu 2 neu fwy o gyngherddau yng Nghyfres Piano Ryngwladol Steinway 2025-2026.*
***Docynnau pris llawn yn unig**



## Cory Band

**Sul 2 Tach 3pm**

Mae un o fandiau pres mwyaf gwobrwyedig y byd yn dychwelyd i'w gartref yng Nghaerdydd am noson o gerddoriaeth na ddylid ei cholli yn CBCDC. Dan arweiniad eu Cyfarwyddwr Cerdd ysbrydoledig Philip Harper, bydd Cory yn perfformio rhaglen feiddgar ac amrywiol sy'n cynnwys clasuron bythol bandiau pres, cerddoriaeth o ffilmiau John Williams, ac unawdau cyfareddol gan brif chwaraewyr y band. Mae'r noson hefyd yn cynnwys ymddangosiad arbennig gan y genhedlaeth nesaf o dalent pres, a fydd yn camu i'r llwyfan ar ôl diwrnod o weithdai gyda Band Cory a pherfformwyr CBCDC.

Neuadd Dora Stoutzker

**£10-£20**



Cory Band

## Arddangosiadau Rhwydwaith Hyrwyddo Jazz

**Mae'n bleser mawr gan CBCDC ynghyd ag Adran Gerddoriaeth Prifysgol Caerdydd gynnal, am y tro cyntaf erioed yng Nghymru, Gynhadledd ac Arddangosfa.**

### Arddangosfa I:

**Iau 6 Tach 7.15pm**

### Arddangosfa II:

**Gwe 7 Tach 7.15pm**

Ymunwch â ni dros ddwy noson, fel rhan o Gynhadledd Rhwydwaith Hyrwyddo Jazz, i ddathlu'r artistiaid jazz gorau o bob cwr o'r DU ac Iwerddon. Bydd y nosweithiau arddangos hyn yn croesawu rhestr wych o artistiaid gan gynnwys y cerddorion Huw Warren ac Angharad Jenkins o Gymru, a fydd yn cyflwyno eu prosiect deuawd newydd 'The Gower Nightingale / Eos Gŵyr' (7 Tach) sy'n archwilio traddodiadau cerddorol, hunaniaeth ac iaith gan ganolbwyntio ar Benrhyn Gŵyr ac Abertawe lle magwyd y ddau gerddor.

**Rhwydwaith Hyrwyddo Jazz. Darganfyddwch mwy: www.jazzpromotionnetwork.org.uk**

Cefnogir gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**

| Tocynnau £15 | Cynnig: Archebwch docynnau ar gyfer y ddwy arddangosfa am £20 |
|---|---|





## Golygfeydd Opera

**Iau 6 Tach 7pm**
**Gwe 7 Tach 2pm**

Ym mherfformiad cyhoeddus cyntaf Ysgol Opera David Seligman eleni, bydd y myfyrwyr yn perfformio golygfeydd cyfarwydd o operâu poblogaidd ochr yn ochr â thameidiau llawn sbeis o repertoire llai adnabyddus yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, yn amrywio o Britten i heddiw.

Neuadd Dora Stoutzker

**£7.50-£15**

## Gwobr y Gân Syr Bryn Terfel

**Sad 8 Tach 7.30pm**

Bydd rhai o'r cantorion israddedig mwyaf addawol o gonservatoires y DU yn cystadlu am yr anrhydedd o ddod yn enillydd cyntaf Gwobr y Gân Syr Bryn Terfel. Yn un o gantorion opera mwyaf uchel ei barch y byd ac Is-lywydd CBCDC, mae Syr Bryn yn angerddol am ei dreftadaeth ddiwylliannol a chelfyddyd cân. Bydd Bryn yn cadeirio'r panel rhyngwladol o feirniaid arbenigol o fyd cerddoriaeth leisiol ac opera.

Neuadd Dora Stoutzker

**£10-£20**

Cefnogir Gwobr y Gân gan y Gronfa y datblygwyd gan Syr Bryn Terfel mewn partneriaeth â'r Coleg. I gefnogi'r Gronfa, Gwobr y Gân, a dyfodol cân Cymru, cysylltwch â **development@rwcmd.ac.uk**



Syr Bryn Terfel



## Quercus: June Tabor, Huw Warren a Iain Ballamy

**Iau 13 Tach 7.30pm**

Mae Quercus yn plethu hanfod gwerin a jazz. Mae June Tabor, sydd wedi ennill Gwobr Canwr y Flwyddyn Gwobrau Gwerin y BBC ddwywaith, wedi gweithio gyda phobl megis Maddy Prior ac Oysterband ymhlith eraill. Wedi'i restru yn rhestr 100 Arwr Jazz y BBC, mae Iain Ballamy yn un o gerddorion jazz mwyaf adnabyddus DU ac mae cerddoriaeth nodedig a deniadol y pianydd o Gymro Huw Warren wedi arwain at gydweithrediadau â phobl megis Maria Pia de Vito a Mark Feldman. Gyda'i gilydd mae'r triawd hwn yn creu cerddoriaeth hyfryd o deimladwy sy'n cyfuno llais angerddol June gydag alawon perfelys i adrodd straeon chwerwfelys bywyd.

Neuadd Dora Stoutzker

**£11-£22**



Synergedd: ALAW

## Synergedd: ALAW, VRï a Hannah James

**Gwe 14 Tach 7.30pm**

Mae chwech o ddoniau gwerin eithriadol o Gymru a Lloegr yn ymuno ar gyfer cydweithrediad unigryw ac arbennig. Mae ALAW yn cyfuno cyfansoddi caneuon pwerus ag alawon gwreiddiol. Mae VRï, enillwyr yr Albwm Gorau ddwywaith yng Ngwobrau Gwerin Cymru, yn cyfuno harddwch llinynnau clasurol â hedoniaeth sesiwn dafarn ac mae Hannah James yn gerddor, cantores a dawnswraig arloesol hudolus.

Neuadd Dora Stoutzker

**£9-£16**

Cynhyrchiad y Mwldan



## Down for the Count Swing Orchestra: Swing Into Christmas

**Sul 16 Tach 2.15pm a 6.30pm**

Dathlwch dymor y Nadolig mewn steil gyda lleiswyr ac offerynwyr Cerddorfa Swing Down for the Count, wrth iddynt gyflwyno Swing Into Christmas! Dan gyfarwyddyd yr arweinydd Mike Paul-Smith, mae'r band mawr 30 darn hwn ynghyd â llinynnau yn swyno cynulleidfaoedd gydag ail-greadau dilys o glasuron Oes y Swing, gan gynnwys I've Got You Under My Skin, The Christmas Song (Chestnuts Roasting) a llawer mwy. Dathliad llawen o gerddoriaeth swing a band mawr.

Neuadd Dora Stoutzker

**£10-£43**

## Claire Booth a Ensemble 360: Berio Folk Songs


**Iau 20 Tach 7.30pm**

Mae Ensemble 360 a Claire Booth, sydd wedi meithrin partneriaeth ddeinamig drwy eu perfformiadau ar y cyd o Pierrot Lunaire gan Schoenberg, bellach yn troi eu sylw at Ganeuon Gwerin hynod a diddorol Berio ym mlwyddyn canmlwyddiant geni'r cyfansoddwr. O ddeuawd bugeiliol Rebecca Clarke ar gyfer clarinét a fiola ac atgof Katherine Hoover o bobl yr Hopi i luniau swynol a heulog Ravel o Fadagasgar, mae dylanwadau gwerin yn treiddio'r rhaglen gyfan. Mae Sequenzas gan Berio yn gosod y cefndir yng Nghyntedd Carne am 6.30pm.

Neuadd Dora Stoutzker

**£8.50-£17**

UNITE STUDENTS



Claire Booth

## Cerddorfa Symffoni CBCDC: Prodigy

**Gwe 21 Tach 7.30pm**

Mae personoliaethau rhyfeddol ac amrywiaeth feistrolgar yn nodweddu noson o berfformiadau premiere byd gan gyfansoddwyr CBCDC, a bydd enillydd y Gystadleuaeth Concerto Jason Sones yn perfformio concerto piano cynnar Liszt.

Neuadd Dora Stoutzker

**£8.50-£17**

UNITE STUDENTS



**EISIAU DOD FEL GRŴP?**

Rydym yn cynnig gostyngiad ar ddigwyddiadau dethol i grwpiau o 10 neu fwy. Ewch i **rwcmd.ac.uk/cy/plan-your-visit** i gael rhagor o wybodaeth.



## Rownd Gynderfynol y Gystadleuaeth Concerto

**Maw 25 Tach 6pm**

Cyfle i glywed ein hunawdwyr rhagorol yn perfformio am yr anrhydedd o gystadlu yn rownd derfynol y Gystadleuaeth Concerto a gynhelir yn y Gwanwyn, gan ennill y cyfle i ymddangos fel unawdydd gydag un o ensembles mawr CBCDC.

Neuadd Dora Stoutzker

**£7.50-£15**

UNITE STUDENTS

## Triawd Fergus McCreadie

**Sad 22 Tach 7.30pm**

Gyda chymysgedd unigryw o jazz a gwerin Albanaidd, mae cerddoriaeth Fergus McCreadie wedi hudo calonnau a meddyliau cynulleidfaoedd ledled y byd. Cyrhaeddodd albwm Fergus 'Forest Floor' frig siartiau jazz a blws y DU, ac yn 2022 enillodd enwebiad iddo ar gyfer rhestr fer Gwobr Mercury a Gwobr Offerynnwr y Flwyddyn Jazz FM. Mae Fergus McCreadie yn dychwelyd i CBCDC gyda'i driawd a'i albwm diweddaraf 'Stream' sy'n parhau â'i archwiliad o natur a thirweddau'r Alban.

Neuadd Dora Stoutzker

**£9.25-£18.50**



## Pedwarawd Fibonacci

Iau 27 Tach 7.30pm

Daw pethau gwych mewn pecynnau bach – dim ond pedwar cerddor sydd eu hangen i ffurfio pedwarawd llinynnol, ond mae'r emosiynau y gallant eu creu yn ddiddiwedd. Huodledd a ffraethineb y ddeunawfed ganrif, nwydau gwyllt o gefn gwlad Hwngari, a golygfa forol o'r Alban o ddychymyg rhyfeddol Fergus Hall.

**Haydn** Pedwarawd Llinynnol Op.33 Rhif 4 yn Bb fwyaf
**Fergus Hall** Three Hours After High Water
**Bartók** Pedwarawd Llinynnol Rhif 5

Neuadd Dora Stoutzker
£9-£18

UNITE STUDENTS



## Sinfonia Cymru, Catrin Finch, Patrick Rimes, Hanan Issa a Only Boys Aloud

Sad 29 Tach 7.30pm

Dewch i brofi gwir ysbryd y Nadolig ar un llwyfan, wrth i Sinfonia Cymru ymuno â'r delynores Catrin Finch, y ffidlwr Patrick Rimes, Only Boys Aloud, Hanan Issa - Bardd Cenedlaethol Cymru ac Only Boys Aloud. Dyma gyngerdd unigryw a dwyieithog sy'n plethu carolau Plygain traddodiadol, ffefrynnau Nadoligaidd a barddoniaeth newydd. Wedi'i ysbrydoli gan A Child's Christmas in Wales, mae'n ddathliad bywiog o draddodiadau Cymreig, amrywiaeth a hud y Nadolig.

Neuadd Dora Stoutzker
£10-£20

UNITE STUDENTS





## Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway: Tamara Stefanovich

Sul 30 Tach 11am

I Johann Sebastian Bach, roedd cerddoriaeth yn rhedeg yn y teulu, a chreodd ei feibion beth o gerddoriaeth arloesol (a phleserus) y ddeunawfed ganrif. Ond i Tamara Stefanovich – pianydd sydd wedi'i disgrifio'n 'eofn, disglair, eithriadol' – mae mwy nag un ochr i bob stori gerddorol, a heddiw bydd yn datgelu ochr arall, swynol i athrylith Bach: meddwl harddaf cerddoriaeth y gorllewin.

Neuadd Dora Stoutzker
£12-£25

UNITE STUDENTS



Gostyngiad o **10%** pan fyddwch yn archebu 2 neu fwy o gyngherddau yng Nghyfres Piano Rhyngwladol Steinway 2025-2026.*
***Docynnau pris llawn yn unig**

## Corau Noteworthy a Affinity: Joyful a Triumphant

Gwe 19 Rhag 7.30pm

**Cyngerdd Nadolig Hudolus**

Ymunwch â Chorau Noteworthy ac Affinity mewn noson fythgofiadwy o gerddoriaeth Nadoligaidd yn dathlu gwir ysbryd yr ŵyl. Mwynhewch raglen gynnes o gerddoriaeth dymhorol p'un a ydych chi'n mwynhau carolau traddodiadol, clasuron cyfoes, neu ddim ond cyfaredd cerddoriaeth gorawl. Dewch 'Oll dan Orfoleddu!'

Neuadd Dora Stoutzker
£10-£15



## The People's Orchestra a Show Choirs: Something Magical

Sad 20 Rhag 4pm

Camwch i fyd ffilm a ffantasi gyda The People's Ochestra & Show Choir yn eu perfformiad blynyddol o Something Magical - y tro cyntaf yng Nghaerdydd! Yn dathlu straeon cyfareddol y sgrin gyda pherfformiadau o Harry Potter, Paddington Bear a Tangled, mae gan y cyngerdd hwn rywbeth i deuluoedd a chefnogwyr ffilm fel ei gilydd.

Neuadd Dora Stoutzker
£15-£21.50 (ar werth 5 Medi)










## Gala Opera WNO

**Maw 2 & Mer 3 Rhag 7.30pm**

Cyfle i ddathlu'r cydweithrediad blynyddol rhwng Ysgol Opera David Seligman a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru mewn noson o ddisgleirdeb a llawenydd, gyda golygfeydd ac ariâu yn arddangos talent opera sy'n dod i'r amlwg yn y Coleg.

Arweinydd **James Southall**


**Neuadd Dora Stoutzker**
**£23-£25**

## Côr y Nadolig

**Sad 6 Rhag 7.30pm**

Y dechrau perffaith i'ch Nadolig; Côr Opera Cenedlaethol Cymru yn perfformio ochr yn ochr â chantorion CBCDC mewn cyngerdd o repertoire corawl, opera a cherddoriaeth ar gyfer tymor yr ŵyl. Wedi'i gynnal yng Nghapel y Tabernacl yng nghanol Caerdydd, arweinir y noson gan Gorfeistr WNO, Freddie Brown a Chyfarwyddwr Cerddoriaeth CBCDC, Tim Rhys-Evans.

**Tabernacl, Yr Ais (Caerdydd)**
**£11-£22**



## Nadolig ar Broadway

**Iau 11 Rhag 7.30pm**
**Gwe 12 Rhag 2pm a 7.30pm**

Mae ein cantorion theatr gerddorol yn camu i lwyfan Dora Stoutzker mewn cyngerdd pefriog o gerddoriaeth a dathliadau. Ymunwch â ni am glasuron a ffefrynnau oesol o'r llwyfan a'r sgrin.

**Neuadd Dora Stoutzker**
**£20-£22**

## Pres Nadoligaidd

**Gwe 12 Rhag 1pm**

Peidiwch â cholli'r cyfle i brofi synau llawen y Nadolig gyda Band Pres CBCDC, dan gyfarwyddyd Dr. Robert Childs.

**Neuadd Hoddinott y BBC (Bae Caerdydd)**
**£5-£8**




ORA Singers

## ORA Singers: Arddangosfa Cyfansoddwyr Graddedig

**Gwe 3 Hyd 1.15pm**

Cantorion ORA a Suzi Digby OBE yn cyflwyno eu hail Arddangosfa Cyfansoddwyr Graddedig, gan roi llwyfan i bum cyfansoddwr cynnar yn eu gyrfa sydd wedi'u dewis o gasgliad cystadleuol o ymgeiswyr fel cynrychiolwyr dyfodol cerddoriaeth gorawl.

Neuadd Dora Stoutzker


Nicholas Daniel

## Nicholas Daniel a Catherine Milledge (obo a piano)

**Gwe 10 Hyd 1.15pm**

O hud a dirgelwch mythau Groegaidd Britten i ddisgleirdeb Paris ar droad y ganrif, mae'n gwbl gyfareddol.

**Britten** Six Metamorphoses after Ovid
**Rubbra** Sonata yn C mwyaf
**Reena Esmail** Dau symudiad o Pranayam (Dirgh a Kapalbhati)
**Deslandres** Introduction a Polonaise

Neuadd Dora Stoutzker


Jacob Shaw


Yuri Goloubev

## Penwythnos Mawr y Llinynnau

17–18 Hyd

## Jacob Shaw & RWCMD String Soloists

**Gwe 17 Hyd 1.15pm**

**Jessie Montgomery** Starburst
**Caroline Shaw** Entr'acte
**Carl Philipp Emanuel Bach** Cello Concerto
**Giovanni Sollima** Violoncelles, Vibrez!

Neuadd Dora Stoutzker

## Yuri Goloubev a Simone Locarni (bas dwbl a piano)

**Sad 18 Hyd 1pm**

Mae ysbryd jazz wrthdaro â cherddoriaeth y cyfnod baróc a chlasurol.

**Schumann** Adagio a Allegro
**Bottesini** Elegy Rhif 3
**Eccles** Sonata, Sumudiad 1 (trefn Eddie Gomez / Yuri Goluoubev)
**Goloubev** Lost Romance
**Locarni** Meina
**Goloubev** Coffee For Seven

Galeri Weston





## Chwyth Siambr CBCDC

**Gwe 24 Hyd 1.15pm**

**Gordon Jacob** Old Wine in New Bottles
**Poulenc** Sonata ar gyfer dau clarinet
**Stravinsky** Octet

Neuadd Dora Stoutzker

## Connaught Brass

**Gwe 7 Tach 1.15pm**

Mae Connaught Brass yn ceisio ailddiffinio sut mae cerddoriaeth siambr pres yn cael ei dirnad. Trwy gomisiynau newydd sbon gan Robin Haigh a Dani Howard, ac ymrwymiad i wreiddioldeb, mae Connaught Brass yn rhoi bywyd newydd i draddodiad, gan gynnig profiad cyngerdd unigryw a diddorol.

Neuadd Dora Stoutzker

## Band Brass CBCDC: Dathliad

**Gwe 14 Tach 1.15pm**

Danteithion o gerddoriaeth ysgafn o Brydain gan dri chyfansoddwr poblogaidd yn cynnwys unawdwr ewffoniwm Oliver Hodgkiss.

**Malcolm Arnold** Little Suite for Brass No.2
**Peter Graham** Concerto for Euphonium – Force of Nature
**Edward Gregson** Partita

Neuadd Dora Stoutzker

## Pianyddion CBCDC: Cerddoriaeth y Nos

**Gwe 28 Tach 1.15pm**

Mae'r nos wedi ysbrydoli cyfansoddwyr erioed, wedi'u denu i bortreadu ei dirgelwch, ei rhamant, ei pheryglu, neu ei thawelwch. Yn y cyngerdd hwn mae myfyrwyr piano CBCDC yn archwilio cyfoeth mawr cerddoriaeth y nos ar gyfer y piano, gan ddatgelu ei harddwch a'i hamrywiaeth benodol.

Neuadd Dora Stoutzker

## Telyn a Gitâr CBCDC

**Gwe 5 Tach 1.15pm**

Datganiad cydweithredol yn amlygu traddodiadau a rennir gan y gitâr a'r delyn. Yn cynnwys 'The Glass Vase with Butterflies' ar gyfer telyn a gitâr gan y gitarydd Americanaidd Anthony Sidney, bydd y perfformiad hwn o ddetholiad o weithiau unawdol a siambr yn archwilio cymeriad myfyriol yr offerynnau hyn.

Galeri Weston

UNITE STUDENTS

Diolch i nawdd hael Unite Students, mae gan unrhyw fyfyriwr sy'n byw mewn llety Unite yng Nghaerdydd hawl i docyn £3 ar gyfer unrhyw gyngerdd awr ginio.

**Dewiswch bris**
**Darbodus £6 | Pris arferol £8 | Talu ymlaen £10**


Chwyth Siambr CBCDC


Connaught Brass


Band Brass CBCDC


Pianyddion CBCDC


Telyn a Gitâr CBCDC



# Penwythnos Mawr y Llinynnau

Fel rhan o Benwythnos Mawr y Llinynnau gall chwaraewyr llinynnau ifanc brwdfrydig ymuno ag ystod eang o weithdai, dosbarthiadau a sesiynau blasu, gan gynnwys:

+ Gweithdy gyda'r feiolinydd o fri Roberts Balanas
+ Gweithdy gyda'r feiolinydd jazz Dominic Ingham
+ Rhoi Cynnig ar y Bas Dwbl gyda'r chwaraewr bas o fri Mary Condliffe
+ Rhoi Cynnig ar y Fiola gyda Phrif Chwaraewr WNO Dunia Ershova
+ Cwrdd â Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru a darganfyddwch mwy
+ Darganfyddwch mwy am astudio yn CBCDC
+ Y Perfformiad Mawr! Cyfle i berfformio gyda cherddorion o Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

I gymryd rhan, cofrestrwch yn:
**rwcmd.ac.uk/whats-on**

## Y Perfformiad Mawr!

**Sul 19 Hyd 4pm**

Ym mherfformiad olaf Penwythnos Mawr Llinynnau, bydd cerddorion Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn cyflwyno cyngerdd gyda perfformwyr ifanc sydd wedi ymuno â gweithdai dros y penwythnos.

**Neuadd Dora Stoutzker**
**Am ddim**
Ar gyfer safon **Gradd 3+**

## Ochr yn Ochr gyda Band Cory

**Sul 2 Tach 9am–3pm**

Rydym yn gwahodd cerddorion band pres ifanc i'n dydd Sul ochr yn ochr gyda Band Cory a myfyrwyr CBCDC. Byddwch yn rihyrsio gyda cherddorion rhyfeddol yma yn y bore, yna'n cynnal perfformiad cyn y cyngerdd ac ar y llwyfan gyda Band Cory yn ystod cyngerdd y prynhawn (gweler tud. 16).

**Neuadd Dora Stoutzker**
Ar gyfer safon **Gradd 5+**

I gymryd rhan, cofrestrwch yn:
**rwcmd.ac.uk/whats-on**

**Hoffai'r coleg ddiolch i'r cyrff cyhoeddus, unigolion, ymddiriedolaethau, sefydliadau a noddwyr sy'n ein cefnogi.**

**The college would like to thank the public bodies, individuals, trusts, foundations and sponsors who support us.**

**rwcmd.ac.uk/thankyou**

**Noddwr | Patron**

HM King Charles III

**Llywydd | President**

Dame Shirley Bassey CH DBE FRWCMD

**Cadeirydd | Chair**

Michael Plaut OBE

**Is-Lywyddion**
**Vice Presidents**

Philip Carne MBE FRWCMD
Rhodri Talfan Davies BA (Hons) Oxon
Sir Anthony Hopkins CBE FRWCMD
Professor Uzo Iwobi CBE
Dame Gwyneth Jones CBE FRWCMD
Captain Sir Norman Lloyd-Edwards KCVO, GCStJ, RD*, JP, RNR
Menna Richards BA FRWCMD
Lady Anya Sainsbury FRWCMD
Michael Sheen FRWCMD
Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD
Edward Thomas FRWCMD
The Rt Revd and Rt Hon The Lord Williams of Oystermouth

**Cylch Llywyddion Ysgol Opera David Seligman**
**The David Seligman Opera School Circle of Presidents**

Rebecca Evans CBE FRWCMD
Sir Brian McMaster CBE FRWCMD
Sir David Pountney CBE FRWCMD
Carlo Rizzi FRWCMD
Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD

Mae'r Ysgol Opera David Seligman wedi ei chefnogi gan rodd David Seligman.
The David Seligman Opera School is supported by the David Seligman gift

**Unigolion | Individuals**

Dame Shirley Bassey CH DBE FRWCMD
The Biss Family
Philip Carne MBE FRWCMD and Christine Carne FRWCMD
Professor Indira Carr
Lord Mervyn and Lady Davies
The late Eira and Don Halley
The late Victoria Harris
The late Leonard and Marian Jones
The late Elaine Hugh-Jones
The late Arthur Morris Jones
The late Barbara Knapton and Kathleen Cavill
Sir Brandon and Lady Lewis
The family of the late Sir Charles Mackerras CBE FRWCMD
Samantha Maskrey
Sean Mathias
The late Eluned McGrenary
Gregory Nasmyth and the Hon. Samantha Rowe-Beddoe
Richard Parry
Thomas Percy
Alan Peterson OBE, Maggie Peterson & Hywel Peterson
The late Gwenllian Phillips in memory of her husband
The late Phoebe Ida Phillips
Janet Price FRWCMD
The late Eileen Price
Sir Jonathan Pryce
The late Trevor Pugsley
John Rath and John Underwood
Carlo Rizzi FRWCMD
The late Eric and Angharad Roberts
Alan Rogers
The late Lord Rowe-Beddoe DL and Lady Rowe-Beddoe
The late David Seligman OBE FRWCMD and the Philippa Seligman legacy
The late Jacqueline Skarvellis
The late Sir Ian Stoutzker CBE FRWCMD
Sir Howard Stringer FRWCMD and Lady Jennifer Stringer
The late Peter Sutton
Peter and Janet Swinburn
Babs and Debs Thomas
Sarah and James Trafford
Lisa Thomas
Matthew and Kate Tucker
The late Beryl Tythicott
The late Marcia Watts
The late Neil and Mary Webber
Ted and Val Yates
Catherine Zeta-Jones CBE FRWCMD

**Cymorth Busnes**
**Business Support**

Hugh James
Steinway

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Trusts and Foundations**

Antares Trust
Albert and Eugenie Frost Music Trust
Anthony G Woolcott Charitable Trust
British Schools & Universities Foundation
Gareth Jones Trust
Helen Rachael Mackaness Charitable Trust
James Pantyfedwen Foundation
Sir John Gielgud Charitable Trust
Julian Bream Trust
Nick Lewis Memorial Trust
The Pontoon Trust
Simon Gibson Charitable Trust
South Square Trust
Spielman Charitable Trust
Starmer Jones Music Trust Fund
Thriplow Charitable Trust
Waterloo Foundation

**Cylch Y Cadeiryddion**
**The Chairs' Circle**

David Churchill
John Derrick and Preben Oeye
Mr and Mrs Vyvyan and Valerie Ferrer
Richard Lloyd-Owen and Patricia Cabrera
Roger Munnings CBE and Karen Munnings
Peter Saunders OBE
Atlantic Property Development PLC (Babs Thomas)



Diolch | Thank you

Hydref | Autumn 2025

**Cylch '49 | The '49 Circle**

Diolch i'r rhai sydd wedi cofio CBCDC yn eu hewyllys.

Thanks to those who have remembered RWCMD in their will.

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR REOLEIDDIWR CODI ARIAN

Elusen Gofrestredig 1139282
Registered Charity 1139282

**Cyswllt | Connect**

Diolch i'n haelodau *Cyswllt* a *Cyswllt* Cyfeillion, sydd wedi eu henwi ar ein gwefan, am eu cefnogaeth ffyddlon o'r Coleg a'i fyfyrwyr.

Thanks to our *Connect* and Friends *Connect* members, who are acknowledged on our website, for their loyal support of the College and its students.

**Hoffem hefyd diolch i bawb a wnaeth gyfrannu i Gronfa Syr Bryn Terfel a Gwobr Shakespeare David Rowe-Beddoe, yn ogystal â'r rheini sy'n cyfrannu at ein gwobrau blynyddol.**

**We would also like to thank everyone who contributed to Cronfa Syr Bryn Terfel and The David Rowe-Beddoe Shakespeare Prize, as well as those who donate to our annual prizes.**

**Cymorth Busnes | Business Support**

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau | Trusts & Foundations**

**Cyrff Cyhoeddus | Public Bodies**

# Digwyddiadau | Events

Hydref | Autumn 2025

| Dyddiad \| Date | Digwyddiad \| Event | Lleoliad \| Venue |
|---|---|---|
| 7 Medi \| Sep | Nova Music: Scenes from Under Milk Wood | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 7 Medi \| Sep | Utsav | Theatr Richard Burton Theatre |
| 25 Medi \| Sep | Dennis Rollins & RWCMD Jazz: R&Beatles | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 26 Medi \| Sep – 12 Rhag \| Dec | AmserJazzTime | Cyntedd Carne Foyer |
| 27 Medi \| Sep | Theatre Re: Moments | Theatr Richard Burton Theatre |
| 3 Hyd \| Oct | ORA Singers: Graduate Composers' Showcase | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 3 Hyd \| Oct | The Paper Cinema: Short tales of other worlds | Theatr Richard Burton Theatre |
| 9 Hyd \| Oct | Classical Café \| Caffi Clasurol | Cyntedd Carne Foyer |
| 9 Hyd \| Oct | SATORU: Catrin Finch & Lee House | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 9 – 11 Hyd \| Oct | BlackRAT: Dai Cula Prince of the Valleys | Theatr Richard Burton Theatre |
| 10 Hyd \| Oct | Nicholas Daniel | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 10 Hyd \| Oct | Blodeugerdd: The Great Welsh Songbook | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 13 Hyd \| Oct – 25 Tach \| Nov | Giant Paper Sculptures | Galeri Linbury Gallery |
| 15 Hyd \| Oct | Cabaret at the College \| Cabaret yn y Coleg | Cyntedd Carne Foyer |
| 15 Hyd \| Oct | Martha Masters | Galeri Weston Gallery |
| 16 Hyd \| Oct | Classical Café \| Caffi Clasurol | Cyntedd Carne Foyer |
| 16 Hyd \| Oct | Llŷr Williams: Shostakovich Preludes & Fugues I | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 17 Hyd \| Oct | Jacob Shaw & RWCMD String Soloists | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 17 Hyd \| Oct | Carducci Caravan | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 18 Hyd \| Oct | Yuri Goloubev & Simone Locarni | Galeri Weston Gallery |
| 18 Hyd \| Oct | AmserJazzTime with Dominic Ingham | Cyntedd Carne Foyer |
| 18 Hyd \| Oct | Roberts Balanas & RWCMD Strings | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 19 Hyd \| Oct | The Big Play! \| Y Perfformiad Mawr! | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 23 Hyd \| Oct | Sound Bar \| Bar Sain | Cyntedd Carne Foyer |
| 23 Hyd \| Oct | Ant Law: Unified Theories | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 23 – 30 Hyd \| Oct | The Lonesome West | Stiwdio Caird Studio |
| 24 Hyd \| Oct | RWCMD Chamber Winds \| Chwyth Siambr CBCDC | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 24 & 25 Hyd \| Oct | WNO Orchestra: Elizabeth Llewellyn & Jiří Habart | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 24 – 30 Hyd \| Oct | Pomona | Theatr Bute Theatre |
| 25 – 30 Hyd \| Oct | Hamlet | Theatr Richard Burton Theatre |
| 26 Hyd \| Oct | Steinway International Piano Series: Clare Hammond | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 30 Hyd \| Oct | Film: Mr Burton with \| gyda Q&A | Theatr Richard Burton Theatre |
| 2 Tach \| Nov | Cory Band Side-by-Side | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 2 Tach \| Nov | Cory Band | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 6 & 7 Tach \| Nov | Opera Scenes \| Golygfeydd Opera | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 6 Tach \| Nov | Jazz Promotion Network Showcase I | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 7 Tach \| Nov | Jazz Promotion Network Showcase II | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 7 Tach \| Nov | Connaught Brass | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 8 Tach \| Nov | Sir Bryn Terfel Song Prize \| Gwobr y Gân Syr Bryn Terfel | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 13 Tach \| Nov | Classical Café \| Caffi Clasurol | Cyntedd Carne Foyer |
| 13 Tach \| Nov | Quercus: June Tabor, Huw Warren & Iain Ballamy | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 14 Tach \| Nov | RWCMD Brass Band: Celebration | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 14 Tach \| Nov | Synergedd: ALAW, VRï & Hannah James | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 15 Tach \| Nov | Little Concerts: Harp Hurrah! | Stiwdio Seligman Studio |
| 16 Tach \| Nov | Down for the Count Swing Orchestra: Swing Into Christmas | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| I20 Tach \| Nov | Claire Booth & Ensemble 360: Berio Folk Songs | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 21 Tach \| Nov | RWCMD Symphony Orchestra \| Cerddorfa Symffoni CBCDC: Prodigy | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 22 & 23 Tach \| Nov | Little Angel Theatre: The Paper Dolls | Theatr Richard Burton Theatre |
| 22 Tach \| Nov | Fergus McCreadie Trio | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 25 Tach \| Nov | Concerto Competition Semi-Final | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 26 Tach \| Nov | Cabaret at the College \| Cabaret yn y Coleg | Cyntedd Carne Foyer |
| 27 Tach \| Nov | Classical Café \| Caffi Clasurol | Cyntedd Carne Foyer |
| 27 Tach \| Nov | Fibonacci Quartet | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 28 Tach \| Nov | RWCMD Pianists \| Pianyddion CBCDC: Night Music | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 29 Tach \| Nov | Sinfonia Cymru, Catrin Finch, Patrick Rimes, Hanan Issa & Only Boys Aloud | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 30 Tach \| Nov | Steinway International Piano Series: Tamara Stefanovich | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 2 & 3 Rhag \| Dec | WNO Opera Gala \| Gala Opera WNO | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 4 Rhag \| Dec | Sound Bar \| Bar Sain | Cyntedd Carne Foyer |
| 5 Rhag \| Dec | RWCMD Harp & Guitar \| Telyn a Gitâr CBCDC | Galeri Weston Gallery |
| 6 Rhag \| Dec | A Chorus Christmas \| Côr y Nadolig | Tabernacl, The Hayes, Cardiff |
| 5 – 10 Rhag \| Dec | The Adventures of David Copperfield | Theatr Bute Theatre |
| 6 – 11 Rhag \| Dec | Tartuffe, The Imposter | Theatr Richard Burton Theatre |
| 11 Rhag \| Dec | Classical Café \| Caffi Clasurol | Cyntedd Carne Foyer |
| 11 – 12 Rhag \| Dec | Christmas on Broadway \| Nadolig ar Broadway | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 12 Rhag \| Dec | Festive Brass | BBC Hoddinott Hall, Cardiff |
| 19 Rhag \| Dec | Noteworthy & Affinity Choirs: Joyful & Triumphant | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 20 Rhag \| Dec | The People's Orchestra & Show Choirs: Something Magical | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 28 Maw \| Mar | Little Concerts: Bassoon in the Room! | Stiwdio Seligman Studio |
| 27 Meh \| Jun | Little Concerts: Percussion Playground! | Stiwdio Seligman Studio |

**Ewch i | Visit www.rwcmd.ac.uk/whats-on**

MIX Paper from responsible sources FSC® C106170

The Royal Welsh College of Music & Drama is part of the University of South Wales Group
Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru